Wilia

Papur Misol Cymraeg Abertawe **Rhif 309**
Gorffennaf/Awst 2008 **Pris 40c**

Ysgolion Cymraeg i golli Cludiant ôl-16 am ddim?

Bydd ail ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn ynglyn â chludiant ôl-16 yn Ninas a Sir Abertawe.
Gwnaed penderfyniad ym Mawrth 2006 gan y Cyngor Sir i ddileu'r cludiant ôl-16 i fyfyrwyr ond yng ngoleuni y llu o ymatebion gan rieni a llywodraethwyr yn dilyn hyn, penderfynwyd gan y Cyngor i ohirio gweithredu'r penderfyniad tan bod ymgynghoriad ffurfiol gyda rhieni ac eraill wedi ei gyflawni yn nhymor yr Hydref 2006. Tynnwyd nôl ar y penderfyniad i ddileu cludiant ôl-16 yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.
Gyda'r ail ymgynghoriad cyfredol cynnigir bod disgyblion ôl-16 i gyd yn talu am gludiant onibai eu bod yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r cynnig yma dipyn yn well na dileu'r ddarpariaeth yn llwyr fel a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf.

'Serch hynny mae'n gynnig a fydd yn cael dylanwad andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn y Sir yn enwedig felly gan mai darpariaeth sirol yw Chweched Dosbarth cyfrwng Cymraeg Partneriaeth Gŵyr/Bryn Tawe sydd yn gwasanaethu holl gymunedau Dinas a Sir Abertawe', ysgrifennodd Y Parchedig John Walters, Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gŵyr mewn llythyr at y rhieni. Aeth ymlaen i godi nifer o bwyntiau eraill yn erbyn y cynnig: Nid yw'r cynnig hwn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r cysylltiad rhwng cludiant ac addysg Gymraeg ac effaith andwyol codi tâl am gludiant ôl-16 addysg Gymraeg.
Mae disgyblion addysg Gymraeg yn gyffredinol yn byw yn llawer pellach o'r unig ddarpariaeth addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg sirol Gŵyr/ Bryn Tawe felly mae'r goblygiadau ariannol yn cwympo'n drymach ar deuluoedd sydd yn dewis llwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg ôl-16. Mae'n angenrheidiol bod cludiant am ddim yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, am mai cludiant sy'n galluogi addysg Gymraeg i fod ar gael mor hwylus ag addysg Saesneg, ac ar sail gydradd.

Bydd codi tâl am gludiant ôl-16 yn cael effaith andwyol ar ddilyniant addysg Gymraeg 11-18. Bydd codi tâl ar fyfyrwyr ôl-16 yn fodd i greu rhwystr i fyfyrwyr o deuluoedd nad sydd yn derbyn Prydau Ysgol Am Ddim ond sydd yn wynebu caledi economaidd- byddai gorfod talu am gludiant i sefydliad addysg yn ffactor bwysig o ran dewis parhau â'u haddysg ai peidio ac hefyd o ran dewis cyfrwng oherwydd pellter. Dinas a Sir Abertawe yw'r Sir gyda'r nifer fwyaf o bobl ifanc heb fod mewn ysgol, gwaith neu hyfforddiant (NEETS) yng Nghymru. Nid yw'r cynnig hwn yn fodd i annog pobl ifanc i barhau â'u haddysg ôl-16 yn enwedig myfyrwyr o deuluoedd llai cefnog.
Mae fframwaith llwybrau dysgu 14-19 yn dod yn statudol ym Medi 2009 felly mae'n statudol i AAL ddarparu addysg 14-19 i bawb. Nid yw'r cynnig hwn yn rhoi ystyriaeth i'r egwyddor o ddarparu addysg 14-19 yn statudol ond nid y cludiant i'r ddarpariaeth. Bydd y cynnig hwn yn creu rhwystr ariannol i fyfyrwyr ar gyfnod mor bwysig yn eu bywyd.
Nid yw'r cynnig yn dangos yn glir beth fydd y gost i bob >>

parhad ar dudalen 2

Ysgol Llwynderw bron yn barod

Mae Ysgol Llwyderw bellach bron wedi'i gorffen yn ei safle newydd yn West Cross, a'r cynlluniau i gyda yn barod ar gyfer agor ym mis Medi. Er na fydd y safle wedi'i gwblhau'n llwyr erbyn hynny, bydd y plant yn dechrau mynd yno ganol y mis, a'r athrawon wedi treulio peth o'u gwyliau'n trosglwyddo offer ac adnoddau'r safle presennol yn Sgeti.

>>**Cludiant ôl-16 parhad**>
myfyriwr ac felly nid yw'n ystyried effaith y gost ar fyfyrwyr unigol . Bydd cost weinyddol ychwanegol wrth sefydlu'r system newydd a chost ychwanegol o ran casglu'r arian. Os mai arbed arian yw'r nod nid yw'n glir yn y cynnig y bydd y system yma o godi tâl ar fyfyrwyr ôl-16 yn arbed arian yn y diwedd i'r Cyngor.
Dylid anfon unrhyw ymatebion i gynnig y cyngor i'r Adran Addysg yn Neuadd y Sir neu'r ysgol cyn **30 Gorffennaf 2008**, dyddiad cau yr ail ymynghoriad.

Llun o'r Chweched dosbarth yn mwynhau gweithgareddau ymarferol ar gyfer Cwrs Gofal Plant lefel 2 yn Ysgol Gwyr. Mae cyrsiau Gofal Plant Ysgol Gwyr, trwy gyfrwng y Gymraeg, Lefel 3 BTEC a chwrs arbennig NVQ Gofal Plant i aelodau'r gymuned yn dechrau ym mis Medi. Gweler yr hysbyseb drosodd >>

Anrhydeddau gan yr orsedd

Llongyfarchiadau i Catrin Stevens ar gael ei hanrhydeddu gan yr Orsedd. Bydd yn derbyn y Wisg Wen (Urdd Derwydd er anrhydedd) yn Eisteddfod Caerdydd fore Gwener, 8 Awst. Meddai'r datganiad i'r wasg: '**Catrin Stevens** (Casllwchwr) llenor, awdur cynhyrchiol a hanesydd, wedi Cadeirio a Llywyddu dau brif fudiad cenedlaethol ac yn aelod treiddgar ei barn ar Bwyllgorau Canolog yr Eisteddfod.

Bydd **Gareth Rhys Tomos** o Derwen Fawr hefyd yn dod yn aelod o'r Orsedd (Urdd Llenor) ar gyfrif ei radd yn y Gymraeg.

Uchod: Catrin Stevens, a fydd yn derbyn y wisg wen. Mae Catrin yn adnabyddus iawn yn lleol, ac wedi bod yn flaengar gyda nifer o fudiadau, gan gynnwys Merched y Wawr a Rhag. mae hi'n awdur nifer o lyfrau hanes, a llyfrau i blant. Roedd yn Is-Gadeirydd yr Eisteddfod Genedlaethol pan oedd yr Eisteddfod yn Abertawe. Ysgrifennodd hanes y Mudiad Ysgolion Meithrin yn ogystal â llyfrau ar arferion caru ac arferion eraill yng Nghymru. Llongyfarchiadau i Catrin.

Wilia

Y mis hwn yng ngofal Mark Stonelake. Diolch i bawb gyfrannodd i'r rhifyn hwn. Y rhifyn nesaf (mis Medi) yng ngofal

Heini Gruffudd,
Hafan
2 Lôn Rhianfa
Ffynhonne
Abertawe

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Gwerthiant Ysgubol ein Llyfr Emynau Cydenwadol

Bu'r gwerthiant ar bob un argraffiad o **Caneuon Ffydd** a gyhoeddwyd gyntaf yn y flwyddyn 2001 yn ddigon o ryfeddod. Rhwng yr argraffiad Sol-ffa, Hen Nodiant a Geiriau'n Unig, gwerthwyd yn ymyl can mil o gopïau erbyn hyn. Dim ond cyfanswm yr argraffiad gwahanol o *Y Beibl Cymraeg Newydd* a gyhoeddwyd gyntaf ym 1988 sy'n rhagori y nifer a werthwyd!

Prisiau gostyngol ar sawl argraffiad
Penderfynodd Pwyllgor Cyffredinol Caneuon Ffydd yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai i gynnig yr argraffiadau canlynol am bris gostyngol:

Sol-ffa clawr caled cyffredin £14.95
Sol-ffa clawr cain £25
Hen Nodiant clawr cain £25
(Y mae'r argraffiad Hen Nodiant clawr caled cyffredin allan o brint ar hyn o bryd)
Argraffiad mawr i'r Organ £30

Prisiau y ddau argraffiad Geiriau'n Unig:
Clawr caled £10.95
Clawr cain £15.95
Gellir prynu *Caneuon Ffydd* yn eich siop lyfrau lleol neu ei archebu o swyddfeydd y pum enwad yng Nghymru sy'n ei gyhoeddi.

Menter Iaith Abertawe

SYRFFIO HAF gyda GSD

Bob Dydd Gwener

Lawr yn Rhosili

10.30-3pm

£10 am sesiwn

Am fwy o manylion cysylltwch

eluned@menterabertawe.org

01792 460906

GWEITHDAI HAF

Os diddordeb gyda chi yn y canlynol?

Gweithdy Cicbocsio 24.07.08 – AM DDIM!

Gweithdy Rap 31.07.08 - AM DDIM!

@ Ty Tawe, 9 Stryd Christina, SA1 4EW

11am – 3pm

Neu beth am fynd ar drip Beiciau Quad?

07.08.08

£10 yn unig

Am fwy o manylion cysylltwch a'r Fenter

01792 460906

Bellach mae'r Fenter ar facebook i fod y n ffrind ewch i

www.facebook.com a chwiliwch am

Menter Iaith Abertawe

Oes diddordeb 'da chi mewn gweithio â phlant?

Os oes, beth am ymuno â chwrs Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg ac ennill cymhwyster? Mae'r cyrsiau ar agor i fyfyrwyr chweched dosbarth ac i aelodau'r gymuned

Cwrs nos Gofal plant- NVQ lefel3
Hyd y cwrs – 1 blwyddyn
Cwrs Gofal Plant – City & Guilds Lefel 2
Hyd y cwrs - 1 blwyddyn
Cwrs Gofal Plant – BTEC Lefel 3
Hyd y cwrs – 2 flynedd

DIM arholiadau, ond asesiadau parhaol**.** Bydd angen archwiliad cofnod troseddol CRB
BLE? Ysgol Gyfun Gwyr.
Os am fanylion pellach , cysylltwch â Mari Tierney ; 01792 872403 Ysgol Gyfun Gwyr,StrydTalbot,Tregwyr,SA43DB

Cymdeithas Gymraeg Treforys a'r Cylch

Ar y nos Lun olynol ymunodd aelodau'r Gymdeithas â'r teithwyr ar y llong bleser 'Balmoral' ar fordaith o gwmpas Bae Abertawe. Trefnwyd y daith i recordio rhaglen yng nghyfres newydd S4C 'Hwylio Noson Lawen'. Ar noson braf o haf cawsom gyfle i fwynhau'r golygfeydd bendigedig ar hyd yr arfordir i Langland gyda chôr merched 'Lleisiau'r Cwm' yn ein difyrru. Yn hwyrach wrth i ni ymlacio yn lolfa'r llong daeth Don Davies, Gwenda a Geinor, Huw Chiswell, Gillian Elisa, Pedwarawd Llinynnol a'r Tebot Piws ymlaen i gynnal y Noson Lawen. Roedd yn noson i'w chofio a chewch gyfle i brofi'r hwyl wrth i'r rhaglen ymddangos ar y teledu yn ystod tymor yr Hydref.

Mae taith i Lundain yng Ngorffennaf ac ymweliad â'r Eisteddfod Genedlaethol i ddod cyn i ni ymgynnull yn Festri'r Tabernacl am 7 o'r gloch ar nos Fawrth, Medi 9 ar gyfer ein Swper Cynhaeaf gyda'r Athro Hywel Teifi Edwards yn ŵr gwadd. Mae manylion am y Gymdeithas ar gael oddi wrth Mrs Wendy Ellis (01792 460859) neu David Gwyn John (01792 773507).

Cofio Crefftwr o Dreforys

Nos Sadwrn, Mehefin 21 daeth gynulleidfa teilwng ynghyd yn Seion Newydd i gofio gwaith Lewis Roberts (1868 – 1917). Roedd Lewis yn weithiwr yn ydiwydiant tun yn y dre ond daeth yn adnabyddus fel gwneuthurwr feiolinau, i ddarganfod mwy am fywyd a gwaith y gŵr.

Mae cyfeiriad at Lewis Roberts yn y llyfr 'British Violin Makers' a sgrifennwyd gan un o'i gyfoedion, Y Parchg. Meredith Morris. Adeiladoss Lewis 87 o feiolinau ac mae 4 ohonynt ym meddiant teulu John Carpenter. Defnyddiwyd y pedair ohonynt yn ystod rhaglen gerddorol y noson.
Yn ôl John Carpenter mae Lewis Roberts ymhlith y gwneuthurwyr offerynnol gorau a gynhyrchodd Cymru erioed. Mae hanes bywyd Lewis Roberts ar gael mewn llyfr sydd ar werth yn y Gymraeg neu'r Saesneg>>>> parhad tud 4

Ann Rosser, Miss Miriam Evans, Y Fon. Margaret Rosser, Myrddin Evans yng nghwmni Mererid Hopwood a'i rhieni Dr a Mrs Eurig Davies.

>>oddi wrth siop John Carpenter 671a, Middle Road, Ravenhill, Abertawe.

Mae Eirlys Roberts, ysgrifenyddes capel y tabernacl yn or-nith i Lewis. Yn dilyn y cyflwyniad cerddorol, trefnodd hi ac aelodau eraill o'r teulu luniaeth ysgafn i bawb. Yn bresennol ar y noson oedd Mr a Mrs Loosemore a'u mab Stuart sy'n byw heddiw yn hen gartref Lewis yn Pleasant Street. Yn cael ei arddangos yn ystod y noson roedd ffenest liw sydd i'w gosod uwchben drws ar y ffordd i hen weithdy y crefftwr.

Taith y Hudolus

Hudolus yw'r gair a ddaw i'r meddwl wrth fwrw golwg yn ôl dros y daith a gafodd Cymdeithas Gymraeg Treforys ar y 14eg o Fehefin. Roedd gennym dywyswyr o fri: Mererid Hopwood a Tudur Dylan, a bu'r ddau wrthi'n ddi-baid trwy'r dydd yn ein harwain ar hyd llwybrau troellog a hardd Sir Benfro. Cawsom addysg, diwylliant ac adloniant wrth iddynt sylwebu'n hamddenol ar hyd y daith. Cynlluniwyd y cyfan ganddynt yn fanwl, a chawsom gyfle i weld beddau'n henwogion: Waldo Williams, W. R. Evans a Thwm Carnabwth a chrwydro yn eu cynefin er mwyn gweld yr hyn a'i hysbrydolodd i gyfrannu at ein diwylliant.

Roedd y tywydd yn berffaith –y cloddiau'n gyfoethog o flodau gwyllt mis Mehefin, y môr yn las llachar a a lleisiau'r ddau brifardd yn ein denu i werthfawrogi rhyfeddodau'r cread. Yn ogystal â hyn oll, cawsom gyfle bendigedig i gyfarfod â brodorion Sir Benfro. Yn yr egwyl am goffi yr oedd aelodau Capel Bethel Mynachlog Ddu yn ein haros gyda chwpanaid o goffi a'u festri fach yn sglein i gyd ac yn fwrlwm o groeso Cristnogol.

Yna amser cinio, aethom i ysgol gynradd Cas Mael, lle roedd y pennaeth yn ein disgwyl a phob peth wedi'i drefnu ar ein cyfer i fwyta'n brechdannau'n gysurus gyda diodydd twym.. Cawsom sgwrs gan y pennaeth Alun Evans, am gasgliad yr ysgol o ddarluniau gwreiddiol. Erbyn hyn mae hwn yn gasgliad enwog ac yr oedd yn brofiad arbennig i glywed hanes a chefndir darluniau arlunwyr megis Kyffin Williams, Aneurin Jones, a Mary Lloyd Jones (ag enwi ond ychydig) sydd yn eiddo i'r ysgol.

Daeth y daith i ben yn ardal PenCaer, ardal Jemeima Nicolas a'i chriw a gododd ofn ar y milwyr meddw o Ffrainc, 'pan laniodd y Ffrancod' yn 1797, ardal a'i thrigolion yn ymfalchio yn ei thraddodiadau.

Ynghanol yr ardal hon y mae'r Hafod, Pontiago, cartref mam a thad Mererid ac yn 'syrpreis' olaf y daith aeth Mererid â ni yno, lle cawsom groeso hollol unigryw i grwydro drwy'r tŷ a gweld ei drysorau, ac i hamddena yn yr ardd a gweld harddwch y golygfeydd o'i chwmpas. Yn sicr dyma goron ar ymweliadau'r dydd a 'disied a theisen' yn lluniaeth i 43 o bobl!

Ar y ffordd adref wedyn, cawsom swper yn y 'dafarn sinc' yn Rose Bush, a llawer o hwyl yn cystadlu mewn cwis a chystadleuaeth limrig ar y daith. Chlywsoch chi erioed y fath firi wrth geisio cofio enwau'r chwedlau a'r cerddi, a phwy oedd y pencampwyr? Miriam Gwen a Denise!! Os am fod yn y tîm buddugol yn y dyfodol anelwch am bobl Treboeth! Llongyfarchiadau mawr i'r tair.

Hoffem gydabod gyda dioch nawdd yr Academi Cymraeg tuag at y daith hon.

Ann Rosser

Ysgol Tirdeunaw

Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i dîm dawnsio gwerin Blwyddyn 4 am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth dawnsio gwerin i flynyddoedd 4 ac iau yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghonwy eleni. Cawsant y drydedd wobr. Diolch i Mr Craig Davies am eu hyfforddi.

Ysgol Eco

Cynhaliwyd diwrnodau Eco yn yr ysgol ar y 5ed a'r 6ed o Fehefin er mwyn hybu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gwarchod yr amylchedd. Bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau megis casglu sbwriel, plannu, celf, cerddoriaeth, addysg gorfforol a bwyta'n iach.

Llongyfarchiadau i'r ysgol am dderbyn gwobr Baner Werdd Eco am eu cyfraniad tuag at warchod yr amgylchedd. Derbyniwyd y wobr oherwydd bod yr ysgol wedi canolbwyntio ar agweddau megis ailgylchu, dinasyddiaeth byd-eang, bwyta'n iach, a datblygu gardd yr ysgol. Bu'r cyfan yn gyfuniad o waith plant, rhieni, athrawon, llywodraethwyr a'r gymuned. Diolch yn arbennig i Miss Catrin Rees am ei chyfraniad tuag at weithgareddau Ysgol Eco.

Newyddion ysgol Bryn y mor

Y dosbarth Meithrin

Mae'r haf wedi cyrraedd ac rydyn ni wedi bod yn brysur yn garddio. Llwyddon ni dyfu llysiau a blodau haul.Bu edrych ar ol yr ardd yn hwyl yn enwedig pan ydyn ni yn darganfod trychfilod,rhai araf,rhai cyflym , rhai bach a rhai mawr.

Y rhai ydyn ni yn hoffi orau yw'r trychfilod sy'n byw yn y dosbarth. Rydyn yn edrych ar ol pump pry pren, ar hyn o bryd rydyn yn meddwl am enwau ar eu cyfer .Rhowch wybod i ni os oes syniadau gyda chi. Blwyddyn 1a 2

Thema y tymor yma yw Creaduriaid. Aethom i Plantasia i weld y planhigion a'r anifeiliaid fel rhan o'n gwaith am y jyngl. Mae cornel chwarae jyngl gyda ni yn y dosbarth. Rydyn ni yn dysgu am y synhwyrau ac yn blasu bwydydd. Daeth tad Alys i'r ysgol i wneud smoothies gyda ni allan o bob math o ffrwythau.Daeth theatr Na'nog i'r ysgol i berfformio y sioe 'Fi y Cawr'. Roedd pawb wedi mwynhau ac roedd yr actorion wedi siarad gyda ni ar y diwedd. Aethom ati i greu sioe ein hunain yn y dosbarth.

Brynymor- parhad
Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at ddiwrnod mabolgampau'r Babanod Aeth dosbarth 3 a 4 i barc Brynmelin ar achlysur agor y ganolfan newydd. Bu Mr John Davies, artist lleol yn gweithio ar brosiect gyda'r plant yn dilyn yr ymweliad.
Chwaraeon
Llongyfarchiadau i dim rygbi'r ysgol. Ennillon nhw gystadleuaeth yr Ospreys. Fe enillon nhw y gem derfynol yn erbyn Pontarddulais. (*Gweler atodiad 'Wilia Gorff' ar gyfer canlyniadau a llun athletau)
Roedd y plant yma wedi cynrychioli'r llwyddiant y sioe. Rydym yn disgwyl ymlaen yn eiddgar am y cynhyrchiad nesaf.
Llongyfarchiadau i dim athletau Ysgol Bryn y Môr am ennill y rownd gyntaf yng nhystadleuaeth athletau'r Sir.
Canlyniadau
Rebecca Hughes bl6 – 1af yn y clwydi
Rhodri Wall bl6 – 3ydd yn y clwydi
Maya Mellor bl3 -2il yn y ras wib
Ioan Wall bl4 – 1af yn y ras wib
Emma Craven bl 5 – 1af yn y ras wib
Rhodri Wall bl 6-1af yn ras wib
Ria Evans – 2il yn y ras wib
James Davies bl 6 – 2il yn y ras 800m
Siwan Thomas bl 6 – 1af yn ras 800m
James Davies bl 6 – 2il yn y naid uchel
Siwan Thomas bl 6 – 2il yn y naid uchel
Emily Jones bl 6 – 1af yn y naid hir
Rhodri Wall – 1af yn y naid hir
Rebecca Hughes – 3ydd yn taflu pwysyn
Ras gyfnewid bechgyn blwyddyn 5 – 3ydd
Ras gyfnewid merched blwyddyn 5 – 1af
Ras gyfnewid bechgyn bl 6 – 2il
Ras gyfnewid marched bl 6 – 1af
Pob lwc i bawb yn y rownd derfynol ar ddechrau Gorffennaf Underdown----
Eisteddfod yr urdd:
Rhys Underdown - unawd piano dan 12 oed
Emyr Meek -unawd pres dan 12 oed
Sioe 'Cantre'r Gwaelod'
Ar y 11eg a 12fed o Fehefin gwnaeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 berfformio'r sioe gerdd ' Cantre'r Gwaelod' o flaen ffrindiau a rhieni'r ysgol. Roedd y plant wedi bod yn ymarfer ers wythnosau ac roedd ol sglein ar yr actio a'r canu. Roedd ymateb y gynudlleidfa yn arbennig ac roedd hi'n amlwg fod estyn diolch i bob person wnaeth helpu i sicrhau pawb wedi mwynhau.Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb a fu o gymorth.

Newyddion da i blant Bryniago

Yn ystod mis Ionawr, gwnaethom gais i'r national Grid er mwyn ennill arian ar gyfer datblygu'r tir ar bwys Bryniago Bach. Rhoddwyd portffolio at ei gilydd a oedd yn cynnwys lluniau o'r tir ag o'r newyddion a oedd yn bodoli'n barod. Roedd y portffolio hefyd yn cynnwys cynllun manwl o beth hoffwn weld ar y tir, a sut byddai'r plant yn elwa ohono. Roeddwn yn hynod o hapus pan gytunodd y National Grid i gefnogi ein cais ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cyfranid o £3,500 i ni i wneud y gwaith. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i PTA yr ysgol am gyfrannu i'r gyllideb.
Roedd y cynlluniau'n cynnwys ffens newydd, llwybr amlwead, maes chwarae antur lefel isel, coed, twnnel helyg, ardal compostio a nifer o bethau eraill. Mae rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud erbyn hyn, gyda diolch i Algar groundwork landscaping & garden services, JMS, DG heath Ltd, Millennium Building and Plastering ac Adventure Playground Wales. Cawsom hefyd gefnogaeth wrth nifer o rieni helpodd i osod y datblygiad yn ei le. Rydym yn ffodus i gael rhieni sydd mor barod i helpu ac rydym yn hynod o ddiochgar iddynt. Bydd y datblygiad yn cynnig nifer o weithgareddau a phrofiad newydd i'r plant. Bydd y babanod a'r iau yn cael cyfleoedd i chwarae a dysgu o'r tir a ddatblygir a byddant yn cael llawer o hwyl, oriau o ddysgu a mwynhad ohono.

Ysgol Login Fach

Ein Trip ir gerddi botaneg

Buodd Blwyddyn 1 a 2 am drip ir Gerddi Botaneg ar ddydd Mercher Mehefin 5ed.Unwaith wnaethom ni gyrraedd y gerddi fe aethom ir theatr, yno gwelsom ni ffilm am flodau. Wedyn aethon ni I'r ty gwydr I siarad am ffrwythau a llysiau. Fe wanethom ni agor ffeien I weld beth oedd yn y canol. I blannu aethom wedyn, plannu planhigyn o'r enw Mari Aur. Cawsom bicnic ar ol y gwaith caled!! Ar ol cinio aethom ir ty gwydr I weld y gwahnol flodau o wahanol wledydd.
Mae to y ty gwydr wedi ei wneud o 785 o ffenestri gwydr. Peth rhyfedd oedd edrych yn y pwll dwr, roedd ein adlewyrchiad yn rhyfedd. Cawsom ddiwrnod ir brenin yno.
Gan Delyth Buckley

Theatr Na-nog
Ar ddydd Iau Mehefin 5ed fe ddaeth theatr Na-nog ir ysgol I gyflwyno sioe Y Cawr Mawr a Fi. Roedd y sioe yn arbennig ar plant wedi mwynhau mas draw.

Y gerddi Botanig
Rydw I wedi gweld pawen cangarw a planhigyn siap brws a planhigyn pel criced. Rydw I wedi clywed adar. Rydw I wedi dysgu bod rhai planhigion gallu byw mewn tan!
Gan Elliot Hunt Blwyddyn 1
Rydw I wedi gweld planhigion a ty gwydr a ffynnon. Rydw I wedi clywed adar yn canu. Rydw I wedi dysgu bod planhigion yn dod mas yn y nos yn y gerddi botaneg.
Gan Carwyn Griffiths

Disgyblion Bryn Iago ar y tir newydd

Plant Login Fach yn y Gerddi Boteneg

Diwrnod gwyrdd Diwedd tymor fe benderfynodd y Pwyllgor Eco godi arian er mwyn prynu nwyddau 'gwyrdd' ir ysgol. Wrth dod a £1 ir ysgol roeddent yn cael gwisgo dillad gwyrdd am y dydd yn lle gwisg ysgol.

YSGOL GYFUN GWYR

Sefydlu grwp Llywio Masnach Deg yn Ysgol Gyfun Gwyr

Mae grwp Masnach Deg wedi cael ei sefydlu y tymor hwn yn Ysgol Gyfun Gwyr. Y nod yw anelu at gael y stamp Masnach Deg i'r ysgol , ac mae'r grwp wedi cwrdd nifer o weithiau i y camau tuag at gyflawni hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig, yn enwedig gan ystyried fod Cymru newydd gael statws gwlad Masnach Deg– y wlad gyntaf yn y byd! Dyma lun o grwp o ddisgyblion yn gwneud cyflwyniad ar Fasnach Deg i'r Llywodraethwyr i ofyn am eu cefnogaeth. O ganlyniad i hyn, mae dau o'r Llywodraethwyr wedi gwirfoddoli i ymuno â'r Grwp Llywio. Edrychwn ymlaen at roi mwy o wybodaeth i chi am waith y grwp yn y rhifyn nesaf.

Llongyfarchiadau i Geraint Desmond ar ennill ysgoloriaeth Prifysgol Morgannwg i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad fe fydd yn derbyn £1500 bob blwyddyn yn ogystal a rhodd o £1000 i'r ysgol!! Ardderchog!!

Cerddorfa'r Sir

Pob hwyl i Laura Beth Davies, Osian Dafydd ac Elidir Dafydd a fydd yn teithio ar daith y Sir i'r Eidal yng Ngorffennaf. Llongyfarchiadau i Elidir ar gael ei dewis i fod yn Arweinydd ffidil 1.

Gwobr Ysgolion Iach

Braf yw clywed fod yr ysgol wedi llwyddo ar gam 2 o wobr ysgolion iach. Diolch yn fawr i Mrs Sara Thomas am gydlynu'r dasg i sicrhau ein bod yn haeddu'r wobr hon.

Newyddion am y chweched

Llongyfarchiadau mawr i Elizabeth Downey, Laura Beth Davies a Geraint Williams ar ennill y cyfle i fynd ar daith elusennol i Batagonia gyda'r Urdd. Cafodd 3 pherson o 7 ysgol wahanol eu dewis i fod yn rhan o'r 21 Cymo i ymweld a'r Wladfa yn hwyrach y flwyddyn hon. Mae'r tri o Gwyr wedi dechrau codi arian yn barod a maent yn edrych ymlaen at y cyfle bythgofiadwy hwn. Pob lwc iddynt!!

LLE YN YBRIFYSGOL

Llongyfarchiadau i Angharad Wooldrige, Rhiannon Watson a Katie Baker Bl.13 ar dderbyn cynigion i astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae cystadleuaeth enfawr bellach am lefydd i astudio'r cwrs yng Nghaerdydd felly mae'r tair siwr o fod wedi creu cryn argraff ac wedi llwyddo yn eithriadol o dda!! Dymnuwn bob llwyddiant yn eu harholiadau.

Daeth i'r amlwg yn ystod y tymor hwn fod gan ambell athro yn Ysgol Gyfun Gwyr ddawn arbennig i chwarae 'bowls'!! Serch hyn, ni fyddai ambell un eisiau cyfaddef!!Gan ddweud hynny cafwyd noson hwylus ym Marc Coed Bach Pontarddulais gyda thim y staff yn chwarae'r tim lleol a oedd yn cynnwys disgyblion yr ysgol!! Bu'n gem agos iawn i ddweud y lleiaf gyda'r tim lleol yn ennill. Diolch yn fawr am y croeso cynnes dderbynion ni – y coffi a'r bara brith blasus Mrs Rhian Thomas!!

Ac yna y bwffe hyfryd yn y Clwb Rygbi. Edrychwn ymlaen at y gem nesaf ym mis Medi!!



Disgyblion Ysgol Gyfun Gwyr yn brysur yn hyrwyddo nwyddau Masnach Deg

Llwyddiant Offerynnol yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Conwy

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau'r Ensemble Iau a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Conwy eleni. Roedd y cystadlu'n frwd, gydag 16 o ensembles yn cystadlu. Llongyfarchiadau hefyd i Laura Beth Davies a Sioned Holland ar gael llwyfan yng nghystadleuaeth y Ddeuawd Offerynnol – tipyn o gamp! Yn wir bu'n brofiad gwerthchweil i'r 105 o ddisgyblion a deithiodd i'r Gogledd dros yr hanner tymor gan iddynt fwynhau ma's draw aros yng Ngwersyll Glanllyn a'r cyfle i gystadlu yn yr holl gystadlaethau llwyfan. Diolch yn fawr i bawb a fu'n gysylliedig a'r trefniadau.

Hola Barcelona!

Pob hwyl i gorau'r ysgol ar ei taith i Barcelona ym mis Gorffennaf. Fe fydd 83 o ddisgyblion yn cael y cyfle i gerdded "Las Ramblas", gorwedd ar y traeth yn Blanes a mwynhau ym Mharc Hamdden Port Aventura. Fe fydd yna gyngherddau yn Barcelona a Sitges.

Llongyfarchiadau i Geraint Desmond ar ennill ysgoloriaeth Prifysgol Morgannwg i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad fe fydd yn derbyn £1500 bob blwyddyn yn ogystal a rhodd o £1000 i'r ysgol!! Ardderchog!!

Prifysgol y Plant / Prifysgol yr Ifanc

Pleser o'r mwyaf oedd derbyn y wybodaeth bod 132 o ddisgyblion yr ysgol wedi derbyn tystysgrifau fel rhan o gynllun Prifysgol y Plant a Phrifysgol yr Ifanc. Nod y cynllun (a ddechreuodd yn Wrecsam yn wreiddiol) yw gwobrwyo disgyblion am y gweithgareddau maent yn gwneud y tu allan i oriau'r ysgol. Derbyniant 1 credyd am bob awr o weithgareddau maent yn gwneud, gan dderbyn tystysgrif efydd pan fyddant yn cyrraedd 100 o gredydau, tystysgrif arian am 200 o gredydau ac aur am 400 o gredydau.

Er mai dyma'r ail flwyddyn yn unig i Ysgol Gyfun Gŵyr fod yn rhan o'r cynllun hwn, braf yw gweld cynnydd aruthrol yn y nifer o ddisgyblion sydd wedi derbyn gwobrau eleni. Yn 2007, derbyniodd 12 disgybl wobr ond erbyn eleni mae 132 o ddisgyblion yn derbyn gwobr.

Ymfalchïwn hefyd yn y ffaith mai Ysgol Gyfun Gŵyr yw'r ganolfan sydd â'r nifer fwyaf o bobl ifanc yn Ninas a Sir Abertawe a dderbyniodd wobr eleni.

Llongyfarchiadau arbennig i Rhian Griffiths ac i Sophie Brisco Williams o flwyddyn 9 am dderbyn Gwobr Arian trwy ymgymryd a chymaint o weithgareddau gwahanol.

Cynhaliwyd Seremoni Gwobrwyo mawreddog ym Mhrifysgol Metropolitan Abertawe ar ddydd Iau y 26ain o Fehefin, pan gyflwynwyd y tystysgrifau i'r disgyblion gan Mike Day, Aelod am Addysg Cabinet Cyngor Abertawe.

Cafwyd diwrnod bendigedig a mawr obeithiwn y bydd y llwyddiant ysgubol hwn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu ynghlwm â'r fenter!

Her y Gnoll

Diwrnod o hwyl yn yr haul, mwd a'r dŵr! Pwrpas y dydd oedd cael timoedd i gydweithio er mwyn llwyddo. Roedd rhaid cael tîm cymysg o blant ag anghenion addysgol arbennig, a rhai heb anghenion er mwyn hybu cydweithio a dealltwriaeth. Ymddangosodd y disgyblion ar y rhaglen newyddion i blant "Ffeil" yn ogystal ag ar newyddion S4C yn siarad am yr holl hwyl a gafwyd yn ystod y dydd.

YSGOL BRYN TAWE

Newyddion Adran y Gymraeg

Penwythnos Adolygu Blwyddyn 11.

Cynhaliwyd Penwythnos Adolygu i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn yr ysgol ar Ddydd Sadwrn, Ebrill 26ain. Braf oedd gweld y rhan helaeth o'r flwyddyn yn tyrru i'r ysgol ar fore braf er mwyn cael gweithdai gyda Dr Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones, yn ogystal ag athrawon yr Adran. Roedd gweld cymaint o'r disgyblion yno yn arwydd o'u hymroddiad tuag at y pwnc. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol gyda'r disgyblion i gyd yn cyfrannu ac yn ymateb mor bositif. Pob lwc i flwyddyn un ar ddeg yn eu harholiadau! Diolch hefyd i aelodau'r Adran Gymraeg am drefnu a chynnal y penwythnos.

Llwyddiant mewn Eisteddfodau lleol

Llongyfarchiadau enfawr i Anys Wood o Flwyddyn 10 a enillodd Dlws yr Ifanc yn Eisteddfod Talgarreg ger Llandysul. Derbyniodd Anys ganmoliaeth uchel gan y beirniad am ei chyfres o ymsonau a dau ddarn o lên meicro. Roedd wyth wedi cystadlu a'r safon yn uchel iawn a dywedodd y beirniad bod Anys yn ysgrifennu yn graff, yn gynnil ac yn aeddfed tu hwnt.

Llongyfarchiadau hefyd i Thomas Maggs o Flwyddyn 8 a gafodd gyntaf am ei gerdd 'Holi' yn Eisteddfod Treffynnon. Ysgrifennodd Thomas gerdd glyfar iawn gan ddefnyddio idiomau adnabyddus.

Llongyfarchiadau anferthol i'r ddau ohonynt a dymuniadau da gyda'r ysgrifennu ar gyfer y dyfodol! Diolch hefyd i Miss Catrin Lyall am ei hysbrydoliaeth yn y Sgwad Sgwennu!

Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Sir Conwy

Llongyfarchiadau enfawr i griw Jac Tawe am ennill am eu cywaith. Gweithiodd ryw 25 o ddisgyblion o Flynyddoedd 7 i 9 ar y prosiect am yr ysgol, a braf yw gweld bod eu gwaith caled wedi dwyn ffrwyth. Diolch yn arbennig i Miss Meinir Jones am gydlynu'r prosiect ac am ei harweiniad gyda'r cywaith.

Llongyfarchiadau hefyd i Carys Norris o Flwyddyn 9 a enillodd y drydedd wobr am ysgrifennu adolygiad arbennig. Mae'r Adran yn dymuno'n dda i'r holl ddisgyblion a fydd yn cynrychioli'r ysgol wrth gystadlu yn yr Eisteddfod.

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus

Ar nos Fercher yr 11eg o Fehefin byddwn yn cynnal Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg yn yr ysgol gyda thimau o Flwyddyn 9 a 10 yn dadlau'n frwd wrth

Disgyblion Bryn Tawe yn dathlu

drafod pynciau llosg. Beirniaid y noson fydd y Parch. Eirian Wyn a Mr David Lloyd. Bydd croeso i chi ymuno â ni yn y gynulleidfa am 6 y.h. Edrychwn ymlaen at y noson.

ynghyd ag Adran Saesneg Bryn Tawe. Mwynheuodd y disgyblion wrando a thrafod gydag actorion a oedd yn chwarae rôl carcharwr a warden carchar o'r 19eg ganrif. Yna, cafodd y disgyblion cyfle i sgwrsio gyda Siân James, Aelod Seneddol Dwyrain Abertawe, am System Carcharu Prydain heddiw. Yn sicr, taniwyd trafodaeth fywiog a chafodd y disgyblion gipolwg gyffroes System Carcharu Prydain ar hyd y canrifoedd. Rhaid llongyfarch Nathan Levy, Adam Lloyd, Aled Meredith, Emily Stroud a Nia Webb am eu cyfraniad gwych i'r drafodaeth a diolch i Mr Chris Shaw a Miss Vicky Williams o'r adran Saesneg am drefnu'r gweithgaredd.

CEWC Cyfarfod Model o'r Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Ar ddydd Gwener, y 9fed o Fai deithiodd rhai o aelodau flwyddyn 9 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i Fae Caerdydd ar gyfer cyfarfod model o Gynulliad Cymru. Roedd y diwrnod yn darparu cyfle i'm disgyblion i drafod pynciau pwysig megis tlodi yn Affrica a hawliau cyfartal wrth ymgymryd â rôl benodol o fewn y cynulliad. Roedd rhaid i'r disgyblion dadlau eu pwyntiau o ran y wahanol bleidiau sef Llafur, Plaid Cymru, Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yn y bore trafodwyd y pynciau yma'n fanwl o fewn gweithdai cyffrous, tra roedd y prynhawn yn gyfle i gynnig araith am y wahanol bynciau a mynegi eu barn yn gryf. Rhaid canmol ein disgyblion am gyfrannu'n Gymraeg a diolch i Nia Webb. Emily Stroud, Nathan Levy ac Amy Green am eu parodrwydd i gymryd rhan. Hefyd diolchiadau i Miss Lowri Jones a Mr Chris Shaw (o'r adran Saesneg) am drefnu'r diwrnod diddorol yma.

Canlyniadau yr Adran Addysg Gorfforol Newyddion Athletau

Llongyfarchiadau i **Catrin Roberts** o flwyddyn flwyddyn 7 – mae Catrin wedi llwyddo i dorri record Cymru am y 200m, mewn amser o 27.5 eiliad.

Mae hyn hefyd yn golygu taw Catrin yw'r pedwerydd cyflymaf ym Mhrydain!! Dal ati Catrin!

Canlyniadau Pencampwriaeth Athletau y Sir

Gwnaeth tîm o Fryn Tawe gystadlu ym mhencampwriaeth Athletau y Sir lawr ar drac y Brifysgol wythnos ddiwethaf. Gwelwyd ymdrech wych wrth pob un o'n cystadleuwyr - dyma rhai o'r canlyniadau : Hywelis Thomas7 – mae Catrin wedi llwyddo i dorri record Cymru am y 200m, mewn amser o 27.5 eiliad.

1af – 1500m / Rhys Williams 1af 400m , ac hefyd torri record y Sir / Rhodri Davies 1af 3,000m / Steffan Jones 1af Naid Hir / Craig Evans 2ail Naid Uchel, 3ydd Clwydi / Rhian Squires, 2ail 100m a'r 200m / Angharad Morris, 2ail Disgen a'r Pwysau / Adam Jeremiah 3ydd 100m / Daniel Davies, ail Clwydi. O ganlyniad mae'r canlynol wedi cael eu dewis i gynrychioli y Sir ym Mhencampwriaeth Athletau Ysgolion Cymru yn Aberhonddu ar y 5ed o Orffennaf - Rhys Williams - 400m / Rhodri Davies - 3,000m / Steffan Jones - Naid Hir / Adam Jeremiah – Ras

Gyfnewid / Hywelis Thomas – 1500m / Rhian Squire – Ras Gyfnewid. Pob lwc i chi gyd!!

Newyddion Criced

Llongyfarchiadau unwaith eto i Chloe O'Connor wrth iddi gael eu dewis i fod yn aelod o dîm Criced merched Cymru. Wnaeth y tîm chwarae i lawr yn Nhregwyr nos Fercher diwethaf.

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg yn yr ysgol, nos Fercher 11eg o Fehefin. Agorwyd y noson gyda'r cyflwynydd Sion Cleaver yn esbonio'r drefn, sef 3 aelod ym mhob tîm, un yn cadeirio, un yn gynigydd a'r llall yn wrthwynebydd. Yna, clywyd 4 tîm o ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 yn ymryson a'i gilydd ar bynciau amrywiol- o ddylanwad enwogion, i gyfreithloni canabis. Roedd y dadlau brwd a'r ambell jôc yn amlwg wrth fodd y gynulleidfa o rieni ac athrawon. Diolch felly i'r disgyblion a gymerodd rhan, sef Alun Emery, Lewis Gardiner, Catrin Hill, Dyfan Lewis, Cerys Morgan, Eleri Williams, Nathan Levy, Evan John, Rhys Jones, Anys Wood, Rhian Gardiner a Morganne Bendle. Beirniaid y noson oedd y Parchedig Eirian Wyn a Mr David Lloyd a phan gafwyd toriad byr iddynt drafod y buddugwyr, darparwyd lluniaeth ysgafn i bawb gyda disgyblion o flwyddyn 7, sef Esyllt, Charlotte a Katie yn cynorthwyo.

Y tîm buddugol oedd Anys, Rhian a Morganne a siaradwr gorau'r noson oedd Eleri. Cyflwynwyd tlysau gan y prifathro i'r prif enillwyr a thystysgrif i bawb a gymerodd rhan. Edrychwn ymlaen at glywed ein hareithwyr wrthi eto! Llongyfarchiadau i Elin Samuel ar gael ei derbyn i Gerddorfa Plant Prydain Fawr. Mae ymrwymiad a thalent Elin i'r delyn yn amlwg a mawr obeithiwn weld Elin yn datblygu i fod yn gerddor arbennig dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae ganddi clyweliad i fod yn rhan o Gerddorfa Ieuenctid Prydain Fawr cyn hir a dymunwn bob lwc iddi!

Newyddion yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

DECHRAU YMGYRCH NEWYDD I WARCHOD GWYR

O heddiw ymlaen fe fydd ymwelwyr i Benrhyn Gŵyr ym medru cymryd rhan mewn ymgyrch newydd sy'n ceisio diogelu harddwch a bywyd gwyllt yr ardal.

Bydd Siop a Chanolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Rhosili, Gŵyr yn dosbarthu bagiau a menyg i ymwelwyr gan ofyn iddyn nhw helpu cadw'r traethau a'r arfordir yn lan ac yn ddiogel, gyda gwobr i'r rhai sy'n fodlon helpu.

Bant â fe ac enillwch wobr!

Drwy gydol Gorffennaf ac Awst, wrth gyrraedd Rhosili, gall ymwelwyr alw yn Siop a Chanolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn derbyn bag, menyg a chanllawiau diogelwch.

Er mwyn diolch am eu cyfraniad i ymgyrch **Bant â fe!** i ddiogelu Gŵyr rhag sbwriel, fe fydd pawb sy'n dychwelyd bag llawn o sbwriel yn derbyn bag jiwt Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ddim , a bydd eu henwau yn cael eu rhoi yn yr het ar gyfer ennill y Fasged Fawr Werdd – gwobr arbennig sy'n llawn o nwyddau gwyrdd gwerthfawr.

Mae gwerth dros £200 o nwyddau gwyrdd yn y Fasged Fawr Werdd ac mae'r gwobrau'n cynnwys eco-degell, llestr gwrtaith, peli peirannau golchi a sychu, bylbiau golau sy'n arbed ynni ar gyfer y cartref cyfan, a chyfarpar bwydo adar, draenogod, ieir fach yr hâf a buchod coch cwta

Bydd enw enillydd y Fasged Fawr Werdd yn cael ei dynnu o'r het ar ddiwrnod gweithgareddau gwyrdd arbennig i'r teulu ar draeth Rhosili ar **Awst 25ain**, sef **Diwrnod Ffyrdd o fod yn Wyrdd.** Yn ystod **Diwrnod Ffyrdd o fod yn Wyrdd,** bydd ymwelwyr ifanc i Rosili yn dysgu sut i ofalu am yr amgylchedd drwy nifer o weithgareddau rhad ac am ddim fel creu bwydwr adar o ddeunydd sy wedi ei ailgylchu

Arddangosfa Newydd

Wrth godi neu ddychwelyd eu bagiau sbwriel, mae cyfle i bobl ymweld â'r arddangosfa newydd rhad ac ddim yng Nghanolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Rhosili sy'n esbonio'r problemau difrifol mae sbwriel yn ei achosi i ardaloedd arfordirol.Mae "Larry" y môr –grwban lledraidd, model rhyngweithiol, yn caniatau i ymwelwyr ddeall sut yn union mae sbwriel yn peryglu bywyd gwyllt. Mae plastig yn arbennig o beryglus i fywyd gwyllt, wrth i adar y môr a môr-grwbanod gamgymryd sbwriel plastig am sglefrod môr er enghraifft. Unwaith mae'r plastig yn cael ei lyncu, mae'n medru creu rhwystr yn y system dreulio sy'n golygu bod yr anifail yn llwgu i farwolaeth.

Mae'r arddangosfa hefyd yn dangos sut mae cyfarpar pysgota a mathau eraill o sbwriel yn medru niweidio a lladd pob math o fywyd gwyllt yn y môr ac ar y tir. Yn ogystal â chyflwyniad DVD a gwybodaeth am fywyd gwyllt ac atyniadau lleol mae yna hefyd weithgareddau yn ymwneud â phrosiectau a gwaith yr Ymddirideolaeth Genedlaethol.

Cefnogi achos da wrth siopa

Mae gan y Siop a Chanolfan Ymwelwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Rhosili, y dewis gorau o lyfrau a mapiau am benrhyn Gŵyr yn yr ardal. Mae'r siop hefyd yn gwerthu cyfarpar a dillad ar gyfer gweithgareddau'r awyr agored, nwyddau arbed ynni, cynyrch organig a thraddodiadol a chrefftau lleol. Mae holl elw y siop yn cael ei ddefnyddio i gynnal gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar benrhyn Gŵyr.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Heledd Jones, Swyddfa'r Wasg yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru ar 01492 860123.

Cafodd tua 80 o Gymry lleol fordaith braf ganol Mehefin pan ffilmiwyd un o raglen cyfres y Noson Lawen ar gwch y Balmoral. Roedd yr hin yn fwyn a chafwyd golygfeydd braf o'r Mwmbwls ar bae cyn cael awr o adloniant.

Ysgol Felindre

TRIP I DAN YR OGOF

Cafwyd diwrnod arbennig ar ein trip ysgol i Dan yr Ogof. Aeth yr ysgol gyfan yn cynnwys rhieni i ofalu am ein plant lleiaf ar y daith. Gwelwyd y brif ogof ac ogof yr eglwys gadeiriol a bu rhai o'r plant ar daith bellach at yr ogof yr esgyrn. Roedd yna atyniadau ychwanegol gyda'r anifeiliaid mawr a bach ac wrth gwrs y dinosoriaid enfawr. Dyma rhai o'r plant lleiaf gydag un dinosor wnaethon nhw ddarganfod ymysg y coed.

Llangrannog

Aeth 4 o blant o Ysgol Felindre ar gwrs preswyl i Langrannog gyda nifer o blant eraill o ysgolion Nedd a Phort Talbot. Yno buont yn sgïo, gwibgartio, merlota, sglefr fyrddio a llawer o weithgareddau eraill.

Roedd ffocws arbennig i'r cwrs eleni gyda gweithdy celf gyda Carolyn Davies a Lynne Bebb. Mae yna arddangosfa o waith y plant yn Ganolfan Celfyddydau Pontardawe o Orffennaf y 1af i'r 20fed.